

BLAENORIAETHAU'R BARTNERIAETH AWYR AGORED (2015-2020)

Blaenoriaeth 1

ANNOG POBL IFANC I WNEUD MWY O WEITHGAREDDAU Y TU ALLAN – ANELU AT 'NEWID CENHEDLAETH'

Er mwyn gallu dwyn yr effaith orau ar dargedau'r dyfodol, mae angen inni ddylanwadu ar fywydau pob person ifanc. Dim ond drwy wneud hyn y gallwn ni sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y gweithgareddau ac yn nifer y cwsmeriaid ac i gyd-fynd â hyn dylai'r dulliau fod yn ffafriol i'r iaith Gymraeg.

Mae rhaid inni ystyried yn iawn sut rydym ni'n cyflwyno'r ffocws ar blant a phobl ifanc, fel un o'n prif flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi. Mae'n bwysig inni edrych ar sut rydym ni'n cyflwyno'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd h.y. mae rhaid cynnig gweithgareddau sy'n hwyl, yn ddifyr ac yn dal sylw pobl yn ogystal â bod yn weithgareddau sy'n gofalu am yr amgylchedd gydag arweinwyr a hyrwyddwyr da a brwd.

Blaenoriaeth 2

CEFNOGI CREU A DATBLYGU CYFLEOEDD I GYMRYD RHAN SY'N GYNALIADWY AC YN HWYL

Cefnogi ac annog asiantau allweddol i gynnig cynnyrch, safleoedd a gofal cwsmer o safon - datblygu, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr a helpu oedolion ifainc a hŷn i ennill cymwysterau a phrofiad er mwyn iddyn nhw allu cynnig cyfleoedd. Annog mwy o berchnogaeth gymunedol ar y sector awyr agored drwy gefnogi mwy o fentrau lleol.

Blaenoriaeth 3

DEFNYDDIO ADNODDAU NATURIOL CYMRU MEWN DULLIAU CYNALIADWY

Mae gwella gwybodaeth pobl a chodi ymwybyddiaeth am yr amgylchedd naturiol a sut mae ei chadw a'i chynnal yn ganolog i ddatblygu'r sector awyr agored mewn dulliau cynaliadwy. Mae'r strategaeth yma'n cydnabod bod rhaid rhannu'r cyfrifoldeb o sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol adnoddau naturiol er mwyn cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n angenrheidiol bod pawb yn y sector (rheolwyr tir, gweithwyr cadwraeth a chyrrff statudol) yn gweithio'n agos gyda'i gilydd er mwyn gofalu am yr amgylchedd yr ydym ni'n dibynnu arni ar gyfer y dyfodol.

ATODIAD B – BLAENORIAETHAU'R BARTNERIAETH AWYR AGORED (2015-2020)

Blaenoriaeth 1 – Annog plant a phobl ifanc i fod yn weithgar yn yr awyr agored mewn ffordd gynaliadwy

- Cefnogi gwasanaethau ieuentid ysgolion a cholegau: Dug Caeredin a chlybiau, wrth ddatblygu sgiliau a hyder drwy gynnig gwobrau (ehangu'r Cynllun Gwobrwyo Ysgolion), cynnal digwyddiadau, hyfforddi, cefnogi, mentora a hybu arfer dda; defnyddio'r amrywiaeth fwyaf bosib o weithgareddau – 'ar olwynion', 'ar droed', 'dringo' 'mewn cwch', 'pysgota' ac 'antur' ayb.
- Partneriaeth gyda phrif ddarparwyr gweithgareddau a rheolwyr adnoddau naturiol h.y. canolfannau awyr agored, parciau, dyfrffyrdd.

Blaenoriaeth 2 – Cefnogi datblygu cynnyrch a llefydd o safon sy'n cynnig profiadau da

Gweithio gyda'r sector preifat, Awdurdodau Lleol, Chwaraeon Cymru, Croeso Cymru er mwyn datblygu dull wedi'i gyd drefnu a strategaeth farchnata o safon sy'n targedu pobl ifanc, oedolion, gwirfoddolwyr, cymunedau lleol ac ymwelwyr.

- Datblygu safonau ansawdd; codau ymddygiad, hyfforddiant gofal cwsmer; cefnogaeth menter/unig fasnachwr/busnes; cefnogi menter gymdeithasol; llysgennad ymwelwyr; esiampyl i eraill; sector gwirfoddol.
- Parhau â'r cynllun recriwtio a chadw gwirfoddolwyr ar gyfer y clybiau gweithgareddau a'r clybiau ieuentid.
- Mapio'r continwmm addysg ym maes Gweithgareddau Awyr Agored a'r Amgylchedd: cynradd – uwchradd – gwirfoddol – cyflogaeth - llwybrau at waith, cynlluniau cymwysterau a 'phrentisiaeth', canfod bylchau a gweithio gyda darparwyr addysg er mwyn cefnogi hyfforddiant, llwybrau at waith, hyfforddiant gwaith ayb.
- Cefnogi perchnogaeth gymunedol ar y sector awyr agored drwy fentrau cymdeithasol (mentora, pecynnau cefnogi, cyfleoedd mapio, rhannu arfer dda ayb).

Blaenoriaeth 3 – Cefnogi cyfranogi lleol, perfformiad, datblygu sgiliau a chyflogaeth

Cefnogi prif ddarparwyr â'u rhaglenni cyfranogi – rhaglenni yn ystod gwyliau, gwyliau:

- Drwy gyfrwng fforymau ardal, awdurdodau lleol a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol, cefnogi cynladwyedd parhaus gwirfoddolwyr yn arwain clybiau;
- Cynnig cynlluniau gwobrwyo clybiau er mwyn hyrwyddo arfer dda;
- Cefnogi a datblygu Llwybrau i Waith;

- Cefnogi Chwaraeon Cymru ddatblygu strategaeth chwaraeon antur awyr agored gyda'r Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol mewn partneriaeth â'r canolfannau awyr agored i hybu perfformiad a rhagoriaeth.

Blaenoriaeth 4 –Rhoi cynllun gweithredu ar waith law yn llaw â phartneriaid eraill

- Arwain wrth 'gysylltu'r' prif randdeiliaid ac asiantau darparu, trefnu 'cynhadledd gysylltu' er mwyn sicrhau cytuno ar weledigaeth gyffredin a chynllun gweithredu.
- Cefnogi a chynghori gweledigaethau a strategaethau'r canlynol:
 - Llywodraeth Cymru
 - Chwaraeon Cymru a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol
 - Awdurdodau Lleol
 - Cyfoeth Naturiol Cymru
 - Rheolwyr Adnoddau Naturiol
 - Arweinwyr a darparwyr addysg e.e. Ysgolion, Colegau, Skills Active
 - Canolfannau Awyr Agored
 - Adnabod prif bartneriaid a rôl unigryw partneriaethau – cytuno ar flaenoriaethau, gweithredoedd a gwasanaethau cefnogi sydd angen, newid hyn yn gytundebau lefel gwasanaeth gyda'r prif bartneriaid
 - Pennu hyrwyddwr ac arweinydd ysgol ar gyfer pobl ifanc o'r Bartneriaeth yn ogystal â hyrwyddwr ac arweinydd darparwyr gweithgareddau'r sector fasnachol
 - Adolygu aelodaeth Bwrdd y Bartneriaeth Awyr Agored er mwyn sicrhau bod hynny'n cyd fynd â'r strategaeth newydd e.e. cynnwys cynrychiolaeth o'r sectorau gwirfoddol, cyhoeddus a masnachol, fel bo hynny'n addas, gan y sefydliadau neu'r meysydd:
 - Llywodraeth Cymru
 - Sector rheoli adnoddau naturiol
 - Adfywio economaidd/rheoli twristiaeth
 - Ymarfer corf, iechyd a lles
 - Campau
 - Antur awyr agored
 - Addysg
 - Gwasanaethau ieuencid
 - Pobl ifanc
 - Canolfannau awyr agored

